

Annwyl Farwnes Hallett,

Diolch am eich llythyr o 12 Mai, yn amlinellu eich cynigion ar gyfer mireiniadau i gylch gorchwyl yr ymchwiliad yn dilyn y broses ymgynghori helaeth o dan eich arweiniad dros gwrs Mawrth ac Ebrill.

Fel y gwnaethoch amlinellu yn eich llythyr, adnabu'r broses ymgynghori nifer o feysydd lle roeddech yn teimlo y gallai'r cylch gorchwyl gael ei wella, ac rwy'n fodlon i dderbyn yr holl gynigion rydych wedi'u gwneud - yn amodol ar nifer fach o newidiadau eglurhaol yn unig a geisiwyd gan y gweinyddiaethau datganoledig sydd wedi cael eu trafod â'ch tîm.

Wrth dderbyn eich newidiadau yn llawn, nodaf ychwanegu'r ymadrodd "cael eu cofnodi" at y gofynion i ymchwilio "sut roedd penderfyniadau'n cael eu gwneud, eu cyfathrebu a'u gweithredu". Megis uchod, rwy'n fodlon i dderbyn y newid arfaethedig hwn - ond wrth wneud hynny buaswn i'n tynnu eich sylw at y ffaith fod hyn yn faes y mae craffu arno hefyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ogystal â'r Llys. Er budd darparu canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwiliad mewn dull amserol, mae - buaswn yn awgrymu - angen i osgoi dyblygu diangen o'r gwaith hwnnw, a buaswn i'n eich hannog i roi ystyriaeth briodol i'r mater hwn wrth i chi gynllunio'ch ymchwiliad.

Byddaf yn awr yn gwneud Datganiad pellach i'r Senedd i gadarnhau cylch gorchwyl yr ymchwiliad. Wrth wneud hynny, byddaf yn cadarnhau mai "dyddiad sefydlu'r" ymchwiliad at ddibenion y Ddeddf yw heddiw. Bydd fy Natganiad hefyd yn cadarnhau ei fod yn fwriad gennyf o hyd i benodi aelodau ychwanegol i'r panel er mwyn i'r ymchwiliad gael mynediad at yr amrediad llawn o arbenigedd sydd ei angen i gwblhau'r gwaith pwysig hwn. Byddaf yn cadarnhau - fel Mae'r Ddeddf Ymchwiliadau yn gofyn - fy mod yn bwriadu penodi dau unigolyn o'r fath.

Roeddwn i'n ddiolchgar am ein sgwrs ar y mater hwn ac yn croesawu'r cynlluniau a amlinellwyd gennych i sicrhau bod yr ymchwiliad wedi'i arfogi i ddarparu beth sydd heb amheuaeth yn gylch gorchwyl eang a heriol. Serch hynny, fy marn yw o hyd fel yr oedd pan siaradom cyn eich penodiad, y bydd panel ehangach yn y lle gorau i ateb gofyniad statudol "arbenigedd angenrheidiol" ac i fynd i'r afael ag ehangder a chymhlethdod enfawr y materion o dan ystyriaeth.

Yn olaf, yn dilyn ymgynghori ar y pwynt hwn â'r gweinyddiaethau datganoledig, mae'r llythyr hefyd yn gweithredu fel caniatâd ysgrifenedig i chi ddefnyddio'ch pwerau ffurfiol o dan Adran 21 o'r Ddeddf Ymchwiliadau 2005 mewn perthynas â materion datganoledig a thystiolaeth i'w darparu gan Weinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig - ac yn gweithredu fel cadarnhad mai'r "Rhan berthnasol o'r Deyrnas Unedig" at ddibenion y darpariaethau hynny o'r Ddeddf Ymchwiliadau sy'n defnyddio'r ymadrodd hwn fydd Lloegr a Chymru.

Dymunaf yn dda i chi a thîm yr ymchwiliad yn eich gwaith pwysig, ac edrychaf ymlaen at dderbyn eich canfyddiadau a'ch argymhellion.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

Boris Johnson